Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ar yr asesiad drafft o lesiant lleol yng Nghonwy a Sir Ddinbych, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Diolch ichi am rannu Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod paratoi asesiad a'r dystiolaeth ategol yn dasg sylweddol ac yn cydnabod faint o waith sydd wedi'i gyflawni. Mae COVID-19 wedi cyflwyno heriau enfawr i'r sector cyhoeddus ac mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dangos ymroddiad a phenderfyniad gwirioneddol i oresgyn sefyllfaoedd gwirioneddol anodd dros y cyfnod hwn. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dangos bod ganddynt hefyd rôl hanfodol i'w chwarae yn yr adferiad ar ôl y pandemig, wrth ystyried yr effeithiau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gymunedau a chydlynu'r ymateb tymor hwy. O ystyried hyn i gyd, rydym hefyd yn cydnabod bod yr asesiadau wedi cael eu paratoi yn ystod amgylchiadau eithriadol ac ystyriwyd hyn wrth eu hadolygu.

Mae ein ffocws wedi bod ar y prif feysydd a fydd, yn ein barn ni, yn rhoi darlun cynhwysfawr ichi o gyflwr llesiant yn eich ardal, gan roi dealltwriaeth dda a chlir ichi yn y pen draw o'r math o flaenoriaethau y gallwch chi fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus dargedu eich ymdrechion ar y cyd arnynt i gael yr effaith orau yn eich cynllun llesiant. Dyma'r ail gylch o asesiadau a'r gobaith yw y bydd gwersi wedi'u dysgu o'r cylch cyntaf, gan adeiladu ar yr hyn a oedd yn digwydd o'r blaen.

Rydym wedi strwythuro ein hymateb i'r ymgynghoriad ar eich asesiad yn yr un modd ag yn 2017, sef:

- ***Sylwadau cyffredinol*** sy'n rhoi trosolwg o sylwadau ar yr asesiad;
- ***Sylwadau mwy penodol*** ar y ffordd y mae'r dadansoddiad wedi'i gynnal a'i gyflwyno a'r ffordd y mae'r gofynion statudol wedi'u bodloni;
- ***Tabl crynodeb terfynol*** sy'n nodi'r meysydd y byddem yn awgrymu y gallent elwa ar gael eu datblygu ymhellach. Rydym yn mabwysiadu dull cyson o ymdrin â'r materion hyn sydd wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:
    - ***Categori A*** – mae'r rhain yn faterion o bwys y byddem yn gobeithio y byddent yn cael sylw cyn cyhoeddi'r asesiad llesiant. Gallent ymwneud, er enghraifft, â chydymffurfio â'r gofynion statudol neu fater sylfaenol gydag ansawdd y dadansoddiad
    - ***Categori B*** – mae'r rhain yn faterion sy'n bwysig ac a fyddai'n cefnogi cynllun llesiant ac iddo sail well ac y byddem yn gobeithio y gellid mynd i'r afael â nhw ochr yn ochr â datblygu'r cynllun
    - ***Categori C*** – mae'r rhain yn faterion a fyddai'n cryfhau'r asesiad ond y gellid mynd i'r afael â nhw dros amser.

Byddwn yn defnyddio'r un dull wrth ymateb i bob un o'r asesiadau.

Safbwyntiau Cyffredinol

Mae'r asesiad hwn yn dangos yn glir yr ymrwymiad y mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r her o asesu llesiant yn yr ardal. Mae'r asesiad yn ymdrin yn dda â'r meysydd allweddol a nodwyd yn y canllawiau statudol ac anstatudol. Mae'r asesiad yn dangos defnydd da o ystod o dystiolaeth i gefnogi'r dadansoddiad.

Mae ein gwerthusiad yn nodi rhai meysydd i'w datblygu ymhellach, na fyddant, gobeithio, yn cymryd llawer o ymdrech i'w datrys. Os yr ymdrinnir â'r meysydd hynny, bydd hyn yn cyfrannu'n helaeth at gryfhau'r asesiad. Ar y cyfan, mae'r asesiad yn rhoi dadansoddiad manwl a thrylwyr ynghylch llesiant yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Sylwadau ar agweddau penodol o'r Asesiad

Gofynion Statudol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn nodi nifer o feysydd y mae angen i'r asesiad ymdrin â hwy. Mae'n ymddangos bod yr asesiad hwn yn ymdrin â rhai ohonynt, fodd bynnag, nid yw'r asesiad yn ymdrin â phob un o'r gofynion statudol sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae gwefan yr asesiad yn eich galluogi i bori yn ôl ardal gymunedol ar draws ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gan bob ardal gymunedol broffil, er y mae strwythur ac ehangder cynnwys y rhain yn amrywio rhwng Conwy a Sir Ddinbych. Gwelir bod mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys ar gyfer yr ardaloedd cymunedol yn Sir Ddinbych.

Ar y cyfan, mae'r asesiad yn rhoi darlun manwl ynglŷn â llesiant yng Nghonwy a Sir Ddinbych gyda'i gilydd, ac yn arbennig ar gyfer ardaloedd cymunedol yn Sir Ddinbych. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol sicrhau gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa lesiant ym mhob un o'r ardaloedd cymunedol yng Nghonwy, yn ogystal â dealltwriaeth o ran lle y mae'r heriau mwyaf yn bodoli.

Mae'r trosolwg o'r ardaloedd cymunedol yn rhoi dolen i broffil ardal sy'n cyflwyno'r data mewn tablau. Efallai y byddai'n fwy effeithiol pe byddai modd integreiddio'r data sydd gennych gyda'r dadansoddiadau a geir yn y trosolwg cymunedol. Er enghraifft, ar gyfer Gorllewin Conwy, gellid cynnwys 'strwythur oedran hŷn na Chymru a Phrydain Fawr' gan ychwanegu graff neu dabl sy'n dangos hynny. Byddai dadansoddiadau sydd â data ategol yn cryfhau'r adrannau hyn.

Nid yw'n ymddangos yn syth bod yr asesiadau a'r adolygiadau canlynol wedi'u defnyddio. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod yn rhaid i'r bwrdd ystyried y rhain wrth lunio'r asesiad llesiant:

- Adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth addysg Feithrin
- Asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Asesiad strategol ymdrin â Chamddefnyddio Sylweddau
- Asesiad Strategol sy'n ymwneud â Lleihau Aildroseddu.

Strwythur a Fformat

Mae'r tablau unigol ar gyfer pob un o'r testunau ym mhob thema yn cynnig ffordd synhwyrol ac effeithiol o dorri'r dadansoddiad i lawr, h.y. y darlun presennol, cymariaethau â'r gorffennol, rhagfynegiadau i'r dyfodol, adborth, a bylchau mewn gwybodaeth. Crëwyd argraff arnom yn sgil y modd nad yw'r asesiad yn ystyried pethau ar eu pennau eu hunain. Gwelir bod llawer o groesgyfeirio'n digwydd sy'n sicr o fod wedi gofyn am lefel uchel o ymdrech i gyflawni hynny.

Ar adegau, teimlom fod gosodiad y prif gorff gwaith ar-lein yn anodd ei lywio. Er enghraifft, pe buasech yn dilyn cyfres o dabiau a dolenni, nid oes dewisiadau briwsion bara ar gael i'ch tywys yn ôl i'r adran flaenorol. Gallai hyn ei gwneud yn anodd gwybod a oes unrhyw beth yr ydych chi wedi'i golli.

Mae'r Crynodeb Gweithredol yn clymu popeth ynghyd yn daclus. Os yw'r darllenydd eisiau cael rhagor o fanylion ynglŷn â maes penodol, gallant fynd i'r adran berthnasol yn hwylus i gael rhagor o ddata a dadansoddiadau.

Un maes a ystyriwyd gennym oedd cyflwyniad yr asesiad. Efallai y gellid ei wella pe byddai modd rhannu'r testun yn ddarnau gan gynnwys darluniau a graffiau. Byddai hyn yn gwneud yr asesiad yn haws i'w ddarllen a'i ddeall.

Meithrin Cysylltiadau

Mae'r dull a 'arweinir gan feithrin cysylltiadau', a oedd yn cynnwys gwaith helaeth o feithrin cysylltiadau ar ddechrau'r broses yn creu argraff gan ystyried y rhwystrau a ddaeth yn sgil y pandemig yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Gwelir bod dinasyddion wedi'u cynnwys yn dda, gan gynnwys grwpiau nas clywir amdanynt yn aml.

Mae adlewyrchiad da o gyfyngiadau'r gweithdai rhithwir a'r holiaduron o ran cyfraddau'r ymatebion. At ddibenion rhannu arferion, yn ogystal â'r asesiad, byddai'n ddefnyddiol cynnwys rhagor o fanylion ynghylch y gweithdai rhithwir / grwpiau ffocws a fforymau a gynhaliwyd (yn benodol y grwpiau ffocws Sgwrs y Sir a'r grwpiau ffocws ieuenctid). Er enghraifft, faint o weithdai a gynhaliwyd? Faint o bobl wnaeth gymryd

rhan? A gofnodwyd y trafodaethau, ac os felly, sut y dadansoddwyd yr hyn a gafwyd o'r trafodaethau? Mae'r asesiad yn cyfeirio'n fras at y fforwm llais rhyngweithiol rhanbarthol - byddai'n ddiddorol cael gwybod rhagor am y rhain. Hynny yw, o'r 50 o sefydliadau a fynychodd, a oedd cynrychiolaeth ar draws pob sector neu a oedd unrhyw fylchau amlwg? Nodir hefyd bod gweithdai wedi'u cynnig i'r fforymau Pobl Byddar a Phobl â Nam ar eu Golwg. Byddai gwybodaeth ategol yn fanteisiol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaid eraill.

Mae gan bob thema adran o'r enw 'Beth y mae pobl wedi'i ddweud'. Gallai'r adrannau hyn elwa o wybodaeth ynghylch pa mor gyffredin oedd y gwahanol fathau o adborth, neu gellid cynnwys datganiadau uniongyrchol i arddangos yn glir llais y cyfranogwyr a oedd yn rhan o'r broses o feithrin cysylltiadau â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cydbwysedd a Chynwysfawredd

Mae'r asesiad wedi'i rannu i bedair thema llesiant sy'n ymdrin â phob un o'r conglfeini. Yn ogystal, mae'n dda gweld proses o groesgyfeirio lle bo hynny'n berthnasol er mwyn sicrhau nad yw'r gwahanol feysydd yn cael eu hystyried ar eu pennau eu hunain. Er enghraifft, mae'r sector amaeth a bwyd yn cael ei ystyried ar sawl lefel gan gynnwys llesiant diwylliannol / hunaniaeth a mynegiant (e.e. y gymuned amaeth / bwyd a chysylltiadau â digwyddiadau bwyd) yn ogystal ag ar lefelau sy'n fwy amlwg megis lefelau amgylcheddol ac economaidd.

Mae nifer y materion a archwiliwyd yn dangos faint o waith sydd wedi'i gwblhau wrth gynnal yr asesiad, e.e. effaith Brexit ar yr economi wledig. Rhoddir sylw i rai o'r meysydd gwannaf a amlygwyd yn yr asesiad diwethaf, sef diwylliant a sut y mae'r maes hwn yn parhau i fod yn un heriol. Byddai'n dda pe gellid cael dealltwriaeth gennych yn ddiweddarach ynghylch pa mor ddefnyddiol yr oedd sesiynau briffio Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ichi.

Ar y cyfan, mae'r asesiad yn rhoi ystod dda o faterion i'r bwrdd eu hystyried a'u harchwilio ymhellach wrth iddynt ystyried y blaenoriaethau ar gyfer y cynllun llesiant.

Dull Myfyriol a Chritigol

Ceir adran glir yn y cyflwyniad sy'n adlewyrchu ar y cyfyngiadau yn yr asesiad. Mae'r rhain yn cynnwys bylchau data, agweddau sydd wedi parhau i fod yn heriol ers yr asesiad diwethaf (er enghraifft, data sydd ar gael ynghylch grwpiau ar y cyrion, tystiolaeth ynghylch agweddau cymdeithasol a diwylliannol o lesiant), yn ogystal ag anawsterau o ran meithrin cysylltiadau yn sgil COVID-19, a sut y gellir diwallu'r bylchau hyn yn y dyfodol (e.e. drwy ddefnyddio data o Gyfrifiad 2021). Mae'n dda gweld hyn, ac ar y cyfan, mae'r gonestrwydd a rennir yn gwneud yr asesiad yn fwy

credadwy gan ddangos yr anawsterau a wynebwyd wrth geisio cael rhywfaint o ddata yn hytrach na dewis anwybyddu'r maes dan sylw yn llwyr.

O dan 'Bylchau mewn Gwybodaeth', dim ond cyfeirio at y ffaith bod effaith yn sgil COVID-19 y mae rhai themâu. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gellid bod yn fwy penodol ynghylch pam mae COVID-19 yn creu bylchau tystiolaeth yn y thema llesiant benodol honno. Er enghraifft, a yw'r broses o gasglu rhai o'r data wedi dod i ben, neu a yw COVID-19 wedi amharu ar y data?

Ansawdd y Dull Dadansoddi

Mae'r asesiad yn nodi'n glir bod meithrin cysylltiadau, data rheolaidd a dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol wedi'u cyfosod a'u cydgysylltu. Mae'n amlwg bod llawer o waith meddwl wedi'i roi i'r maes hwn yn sgil y syniadau a gynhyrchwyd. Gellid cryfhau'r asesiad terfynol ymhellach drwy ychwanegu tab methodoleg manylach (neu ychwanegu i'r tab meithrin cysylltiadau ac ymgynghori) sy'n rhoi mwy o fanylion ynghylch sut y cafodd y data eu casglu, eu dadansoddi a'u cyfosod.

Drwy gydol yr asesiad, cydnabyddir cryfderau, gwendidau neu gyfyngiadau'r sylfaen dystiolaeth, a lle y mae angen mwy o gydweithio â phartneriaid rhanbarthol er enghraifft. Mae hyn yn dangos bod dull gonest a myfyriol tu hwnt wedi'i gynnal yn ystod yr asesiad. Mae hyn yn ychwanegu hygrededd at yr asesiad ac yn rhoi sylfaen gref ar gyfer llywio'r cynllun, gan dynnu sylw hefyd at feysydd lle y mae angen mwy o ymchwil a thystiolaeth.

Tueddiadau'r Dyfodol

Ceir adlewyrchiad da o'r tueddiadau hirdymor a lle y gallai'r rhain fod wedi newid ers yr asesiad blaenorol yn sgil COVID-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau ar gyfleoedd twristiaeth a sut y mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael effaith anghymesur ar y rhai hynny sydd eisoes yn wynebu tlodi.

Mae gan y prif benodau adrannau rhagarweiniol ar 'beth sy'n digwydd nawr' a 'beth rydym yn ei wybod neu'n ei ragweld at y dyfodol'. Mae hyn yn dangos adlewyrchiad o'r heriau (a'r cyfleoedd) o ran cyflawni, er enghraifft, economi carbon isel / economi amgylcheddol gynaliadwy a beth y mae hyn yn ei olygu i amaeth, gwasanaethau cyhoeddus a diwydiant lleol.

Adborth o feysydd polisi eraill

Yn seiliedig ar yr adborth a gawsom gan arbenigwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru, rydym yn amlygu rhai meysydd penodol iawn ichi eu hystyried. Er enghraifft:

- Byddai'n dda pe byddai'r asesiad yn cynnwys mwy o gyfeiriad at fanteision darpariaeth gofal plant, dadansoddiad o'r rôl y mae'n ei chwarae o ran cefnogi llesiant rhieni yn yr ardal, yn ogystal â chynnwys rhywfaint o dystiolaeth o'r gwaith meithrin cysylltiadau â rhieni / gofalwyr / darparwyr;
- Mae'r dadansoddiad ynghylch y 'dechrau gorau mewn bywyd' yn effeithiol ac yn eang, ac yn cynnwys llawer o feysydd gan gynnwys ffactorau economaidd a chymdeithasol;
- Ymddengys bod y data yn cynnwys risgiau yn sgil yr hinsawdd a lliniaru newid yn yr hinsawdd, sy'n dda eu gweld. Ceir ystyriaethau ynglŷn â sut y bydd hinsawdd sy'n newid yn effeithio ar gymunedau, yn ogystal â sut y bydd economi sy'n newid hefyd yn effeithio ar gymunedau. Croesewir hyn.

Meysydd ar gyfer gwaith pellach

Categori A Os nad ydynt wedi'u cynnwys eisoes, cyfeiriad at yr adolygiadau a'r asesiadau canlynol: • Adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth addysg Feithrin • Asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae • Asesiad strategol Ymdrin â Chamddefnyddio Sylweddau • Asesiad Strategol sy'n ymwneud â Lleihau Aildroseddu.
Categori B Rhagor o fanylion ynghylch y gwahanol ddulliau o feithrin cysylltiadau (gweler y paragraff Meithrin Cysylltiadau) Rhagor o esboniad ynghylch pam mae COVID-19 yn creu bylchau mewn tystiolaeth (gweler y paragraff Dull Myfyriol a Chritigol) Rhagor o fanylion ynghylch y datganiad llesiant ym mhob un o'r ardaloedd cymunedol ledled ardal y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r cymariaethau rhyngddynt.
Categori C Gwella hygyrchedd a pha mor hawdd yw defnyddio'r asesiad (gweler y paragraff Strwythur a Fformat).